*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 20(4) o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2015 Rhif (Cy. )

# MEINWEOEDD DYNOL, CYMRU

## Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw'r Galluedd ganddynt i Gydsynio) (Cymru) 2015

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 9 o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013. Mae'r adran hon yn gymwys lle nad oes gan oedolyn sy'n fyw y galluedd i gydsynio i roi organau ac nad oes penderfyniad mewn grym.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan ystyrir bod oedolyn byw nad yw'r galluedd ganddo yn cydsynio i storio a defnyddio i'w drawsblannu ddeunydd perthnasol sydd wedi dod o gorff dynol. Yr amgylchiadau pan ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi yw pan fo storio a defnyddio er lles pennaf yr oedolyn byw nad yw'r galluedd ganddo.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 20(4) o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2015 Rhif (Cy. )

# MEINWEOEDD DYNOL, CYMRU

## Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw'r Galluedd ganddynt i Gydsynio) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau yn adrannau 9(2) ac 20(1) a (2) o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013(**1**) ac ar ôl cynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus sy'n briodol yn eu barn hwy yn unol ag adran 20(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 20(4) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw'r Galluedd ganddynt i Gydsynio) (Cymru) 2015 a deuant i rym am 00:01 ar 1 Rhagfyr 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2013 dccc 5.

### Cydsyniad yr ystyrir ei fod wedi ei roi i storio a defnyddio deunydd perthnasol

**2.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn unrhyw achos sy'n dod o fewn paragraffau (a) a (b) o adran 9(1) o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (storio a defnyddio sy'n ymwneud â deunydd o oedolion nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio).

(2) Ystyrir bod oedolyn ("P") nad yw'r galluedd ganddo i gydsynio i weithgaredd o fath a grybwyllir yn adran 3(2)(c) neu (d) o'r Ddeddf honno (storio neu ddefnyddio deunydd perthnasol o gorff dynol at ddiben trawsblannu) sy'n ymwneud â deunydd o gorff P, wedi cydsynio i'r gweithgaredd pan fo'r gweithgaredd wedi ei wneud gan berson sy'n gweithredu mewn ffordd y mae'n credu yn rhesymol ei bod er lles pennaf P.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad